# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

**RHAN 2**

TRWYDDEDU SAFLEOEDD CARTREFI SYMUDOL ETC.

*Torri amod*

**21 Pŵer i gymryd camau brys**

(1) Caiff awdurdod lleol sydd wedi dyroddi trwydded safle gymryd camau mewn perthynas ag unrhyw dir sy'n ffurfio'r safle os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol—

(a) bod perchennog y tir yn methu neu wedi methu cydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o amodau'r drwydded safle, a

(b) bod risg ar fin digwydd o niwed difrifol i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson sydd ar y tir neu a all fod ar y tir o ganlyniad i'r methiant hwnnw.

(2) Y camau y caiff awdurdod lleol eu cymryd o dan yr adran hon (y cyfeirir atynt yn yr adran hon fel "camau brys") yw unrhyw gamau y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol eu bod yn angenrheidiol er mwyn dileu'r risg sydd ar fin digwydd o niwed difrifol a grybwyllir yn is-adran (1)(b).

(3) Pan fo awdurdod lleol yn bwriadu cymryd camau brys, rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno i berchennog y tir hysbysiad—

(a) sy'n nodi'r tir y mae'n ymwneud ag ef,

(b) y'n nodi bod yr awdurdod lleol yn bwriadu mynd i'r tir,

(c) sy'n disgrifio'r camau brys y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd ar y tir,

(d) os nad un o swyddogion yr awdurdod lleol yw'r person y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ei awdurdodi i gymryd y camau ar ei ran, sy'n nodi enw'r person hwnnw, ac

(e) sy'n pennu'r pwerau o dan yr adran hon ac o dan adran 32 fel y pwerau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu mynd i'r tir odanynt.

(4) Caiff hysbysiad o dan is-adran (3) nodi y byddai'r awdurdod lleol yn bwriadu gwneud cais am warant o dan adran 32(3) pe bai mynediad i'r tir yn cael ei wrthod.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (3) gael ei gyflwyno yn ddigon cynnar cyn bod yr awdurdod lleol yn bwriadu mynd i'r tir er mwyn rhoi hysbysiad rhesymol i berchennog y tir am y bwriad i fynd iddo.

(6) Mewn achos pan fo'r awdurdod lleol yn awdurdodi person heblaw un o swyddogion yr awdurdod lleol i gymryd y camau brys ar ei ran, mae'r cyfeiriad yn adran 32(1) at swyddog awdurdodedig i'r awdurdod lleol yn cynnwys y person hwnnw.

(7) Mae adran 32, o'i chymhwyso at achos yn yr adran hon, yn effeithiol fel pe bai—

(a) y geiriau "ar bob adeg resymol" yn is-adran (1), a

(b) is-adran (2),

wedi eu hepgor.

(8) O fewn y cyfnod o 7 niwrnod sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r awdurdod lleol yn dechrau cymryd y camau brys, rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno i berchennog y tir hysbysiad—

(a) sy'n disgrifio'r risg sydd ar fin digwydd o niwed difrifol i iechyd neu ddiogelwch personau sydd ar y tir neu a all fod ar y tir,

(b) sy'n disgrifio'r camau brys sydd wedi eu cymryd gan yr awdurdod lleol ar y tir, ac unrhyw gamau brys sydd i'w cymryd gan yr awdurdod lleol ar y tir,

(c) sy'n nodi pryd y dechreuodd yr awdurdod lleol gymryd y camau brys a phryd y mae'r awdurdod lleol yn disgwyl iddynt gael eu cwblhau,

(d) os nad un o swyddogion yr awdurdod lleol yw'r person y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ei awdurdodi i gymryd y camau ar ei ran, sy'n nodi enw'r person hwnnw, ac

(e) sy'n esbonio'r hawl i apelio a roddir gan is-adran (9).

(9) Caiff perchennog tir y mae awdurdod lleol wedi cymryd neu yn cymryd camau brys mewn perthynas ag ef apelio at dribiwnlys eiddo preswyl yn erbyn cymryd y camau gan yr awdurdod lleol (gweler adran 23).

(10) Caniateir apelio ar y seiliau canlynol—

(a) nad oedd risg ar fin digwydd o niwed difrifol fel y'i crybwyllir yn is-adran (1)(b) (neu, os yw'r camau'n dal i gael eu cymryd, nad oes risg o'r fath), neu

(b) nad oedd angen y camau y mae'r awdurdod wedi eu cymryd er mwyn dileu'r risg a oedd ar fin digwydd o niwed difrifol a grybwyllir yn is-adran (1)(b) (neu, os yw'r camau'n dal i gael eu cymryd, nad oes eu hangen er mwyn dileu'r risg).

(11) Mae'r dulliau a ganiateir ar gyfer cyflwyno hysbysiad o dan yr adran hon yn cynnwys ei osod ar fan amlwg ym mhrif fynedfa'r tir neu yn agos ati.